**HYSBYSIAD O GYNNIG**

**Gorchymyn**
**(A548 Mostyn Road / Prestatyn Road a Shore Road Gronant)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 2023 Cyngor Sir y Fflint**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn bod wedi gwneud wedi gwneud Gorchymyn ar 4 Gorffennaf 2023 drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a) ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod terfyn cyflymder o 40mya ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlens yr hysbysiad hwn;
b) Ni fydd y darn ffordd a nodir yn Atodlen 2 yr Hysbysiad hwn bellach yn Ffordd Gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o'r Ddeddf hon.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os caiff ei wneud, yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A548 Mostyn Road, Pentref Gronant) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2015 yn llwyr.

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**A548 Mostyn Road / Prestatyn Road Gronant:**
o bwynt 210 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Shore Road, i bwynt 378 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Shore Road, fel y dangosir ar Cynllun.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**Shore Road, Gronant:**
O'i chyffordd gyda A548 Mostyn Road / Prestatyn Road i bwynt 34 metr i gyfeiriad y gogledd fel y dangosir ar Cynllun.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 30 Gorffennaf 2023, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, 24 Stryd Fawr, Canol y Dref, Treffynnon, CH8 7LH a Llyfrgell Prestatyn, Kings' Avenue, Prestatyn, LL19 9AA yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF
Dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023

Dyddiedig 04 Gorffennaf 2023

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn a Shore Road Gronant)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 2023**

## GORCHYMYN

**fel y nodir oddi mewn**

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn a Shore Road Gronant)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 2023**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adran 82 (2) (a), 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni fydd y ffordd a nodir yn Atodlen 2 y Rhybudd hwn bellach yn Ffordd Gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o’r Ddeddf hon.

3. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darn o ffordds a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

4. Bydd y Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A548 Ffordd Mostyn, Pentref Gronant) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2015 yn llwyr.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2023 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn a Shore Road Gronant) (Terfyn Cyflymder 40mya) 2023.

## ATODLEN 1
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn Gronant:**
O bwynt 210 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Shore Road, i bwynt 378 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Shore Road, fel y dangosir ar Atodlen Map B31.

## ATODLEN 2
**Terfyn Cyflymder 40mya**

**Shore Road, Gronant:**
O’i chyffordd gyda A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn i bwynt 34 metr i gyfeiriad y gogledd fel y dangosir ar Atodlen Map B31.

20731

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar )
diwrnod 4 hwn o Gorffennaf 2023 ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~

**Cyngor Sir y Fflint**
**(A548 Mostyn Road / Prestatyn Road a Shore Road Gronant)**
**Gorchymyn (Terfyn Cyflymder 40mya) 202x**

**DATGANIAD O RESYMAU DROS GYNNIG I WNEUD Y GORCHYMYN**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig y canlynol:

a. Newid y terfyn cyflymder 30mya presennol ar yr A548 Ffordd Mostyn, Gronant i derfyn cyflymder 40mya.
b. Ymestyn y Terfyn Cyflymder 40mya arfaethedig i ffin Sir Ddinbych, felly gostwng y terfyn cyflymder ar ran o’r gerbytffordd o’r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol presennol o 60mya.

Mae’r Awdurdod yn adolygu holl derfynau cyflymder o fewn y Sir, mewn perthynas â’u haddasrwydd i’r ddeddfwriaeth ac mae’r A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn, Gronant yn ffurfio rhan o hyn.

Mae Asesiad Cyflymder mwy diweddar wedi’i gynnal, sydd wedi dod i’r casgliad bod y Terfyn Cyflymder o 30mya yn anaddas ar gyfer y ffordd hon pan aseswyd yn unol â chanllawiau presennol.

Nod sylfaenol yr adolygiad yw darparu rhwydwaith priffordd diogel, effeithiol gyda cherbydau yn teithio ar gyflymder priodol ar gyfer nodweddion y ffordd a bydd yn sicrhau cysondeb terfynau cyflymder drwy rwydwaith priffyrdd y Sir.

Os yw’r terfyn cyflymder yn cael ei osod yn afrealistig o isel ar gyfer swyddogaeth a chyflwr y ffordd benodol, mae’n debyg y bydd yn aneffeithiol ac mae’n bosibl na fydd gyrwyr yn cydymffurfio â’r terfyn cyflymder. Mae gyrwyr yn debyg o gydymffurfio gyda a pharchu terfynau cyflymder is, ble gallant weld bod yna beryglon posibl, er enghraifft y tu allan i ysgolion, mewn pentrefi neu ardaloedd preswyl / poblog a strydoedd siopa, ble mae terfyn cyflymder yn fwy addas.

Mae’r A548 Ffordd Mostyn / Ffordd Prestatyn yn ffordd A dda gyda gwelededd tuag ymlaen da a datblygiad yn bennaf i un ochr o’r gerbytffordd. Mae’r ffordd yn ddigon llydan gyda lonydd yn troi i’r dde, i helpu llif traffig.

Bydd y terfyn cyflymder 40mya arfaethedig yn ymestyn i ffin Sir Ddinbych, gan ostwng rhan o Derfyn Cyflymder Cenedlaethol i 40mya.


Mae'r Awdurdod yn parhau â’i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae’r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bobl sy’n defnyddio’r ffordd yn ogystal â gwella amwynderau yn yr ardal.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug:
Sir y Fflint
CH7 6NF
Dydd Gwener xx xx 2023




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

**KEY:**

Terfyn Cyflymder 40mya
40mph Speed Limit

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**STREETSCENE**

Project:

## A548 Gronant Speed Limits


**Terfyn Cyflymder 40mya**
**40mph Speed Limit**

**Sheet 1 of 1**

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Contact Name: | Anthony Stanford | Telephone: | 01352 70xxxx | |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 | |
| Checked by: | AS | Date: | 21.04.23 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: NTS | Drawing No: | HT/23/A548 Gron | | Phase/Rev: C1 |

AutoCAD File Ref: H:\TRO's Speed\TRO's 2022\Gronant\Gronant Road 40mph\Gronant 2023\A548 Gronant 40mph speed limit.dwg Jun 28, 2023 - 2:37pm




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386, Flintshire County Council, 2018.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386, Cyngor Sir y Fflint 2018.

N

1:5000 Scale at A3
1:5000 Graddfa ar A3

**The Flintshire County Council**
**(A548 Mostyn Road / Prestatyn Road and Shore Road, Gronant)**
**(40mph Speed Limit) Order 2023**

**Gorchymyn**
**(A548 Mostyn Road / Prestatyn Road a Shore Road Gronant)**
**(Terfyn Cyflymder 40mya) 2023 Cyngor Sir y Fflint**

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NB

Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint, CH7 6NB

## Legend / Eglurhad

- 20 mph/mya
- 30 mph/mya
- 40 mph/mya
- 50 mph/mya
- 60 mph/mya
- 70 mph/mya
- County Boundary / Ffin Sirol

## Map tile
# B31

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** 30/07/2023